

Dweud eich dweud

# Tu hwnt i'r llwybr tynnu

## Prosbectws deng mlynedd Glandŵr Cymru

Glandŵr Cymru
The Canal & River Trust in Wales

@glandwrcymru
#beyond10

# Sut i gymryd rhan

Man cychwyn i sgwrs gyda Llywodraeth Cymru a phobl Cymru yw'r Prosbectws hwn. Yn ystod tri mis cyntaf 2014 byddwn yn cyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu manwl ar y themâu canlynol:

- **Cymunedau – Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu;**
- **Twf – Gweithio Gyda'n Gilydd;**
- **a Chynaliadwyedd – Dyfrffyrdd i Gymru.**

Bydd syniadau enghreifftiol eraill yn cyd-fynd â'r themâu hyn sy'n dangos sut mae'r dyfrffyrdd yn gallu cyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

# Rydym am glywed eich barn

- **A yw'n strategaeth gyffredinol yn gywir?**
- **Pa feysydd ddylai gael blaenoriaeth yn eich barn chi?**
- **A ddylem fod wedi cynnwys unrhyw amcanion eraill?**
- **A oes gennych chi unrhyw gynlluniau neu bolisïau y gallwn gydweithio â chi i'w cyflawni er budd y naill a'r llall?**
- **Sut allwn ni gydweithio i wireddu ein gweledigaeth?**

## Cysylltwch â ni erbyn dydd Llun 6 Ionawr 2014


**E-bost:** **enquiries.wales@canalrivertrust.org.uk**

**Cyfeiriad:** Glandŵr Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru Y Lanfa, Gofilon, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 9NY


Ewch i'n byrddau hysbysu i gael y newyddion diweddaraf: Canalrivertrust.org.uk/GlandwrCymru

/canalrivertrust

@glandwrcymru

**Get involved**


© Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Glandŵr Cymru. Rhif elusen 1146792. Tachwedd 2013

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 04 |
| Dyfrffyrdd yng Nghymru | 06 |
| Map Dyfrffyrdd | 07 |
| Dyfrffyrdd yng Nghymru – Rhan o Rwydwaith Ehangach | 08 |
| Dyfrffyrdd yng Nghymru – Amseroedd Gyrru | 09 |
| Glandŵr Cymru – Ein Dyfrffyrdd | 10 |
| Glandŵr Cymru – Ein Gweledigaeth yng Nghymru | 11 |
| Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd – Ein Blaenoriaethau Strategol | 12 |
| Glandŵr Cymru – Ein Cenhadaeth | 13 |
| Glandŵr Cymru – Ein Blaenoriaethau Strategol | 14 |
| Cyflawni Mwy dros Gymru – Synergedd Polisi Cyhoeddus | 17 |
| Cyflawni Mwy dros Gymru – Rhoi Blaenoriaethau ar Waith | 18 |
| Astudiaethau Achos – Tri Syniad | 19 |
| Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyflawni Mwy – Ein Prosbectws Deng Mlynedd | 18 |
| Ein Partneriaeth | 31 |

# Croeso




Yn sgil sefydlu'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn 2012, sef y drydedd ar ddeg ar restr elusennau mwyaf y DU, mae gan Gymru gyfle i ddatblygu cysylltiad agosach â'i dyfrffyrdd. Mae sefydlu Glandŵr Cymru - Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru, a Phartneriaeth Cymru Gyfan sy'n cynnwys aelodau sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, wedi ein galluogi i ystyried sut y gellir datblygu'r cysylltiadau hyn. Fel cadeirydd Glandŵr Cymru, rwyf wedi mynd ati i gyfarfod ag aelodau'r gymdeithas ddinesig yng Nghymru dros y deuddeg mis diwethaf, ac mae'r Prosbectws Deng Mlynedd hwn yn adlewyrchu'r trafodaethau hyn a'r dyheadau a leisiwyd.

Adeiladwyd camlesi Cymru ddau gan mlynedd yn ôl yn ystod cyfnod o dwf diwydiannol cyflym er mwyn darparu cysylltiadau hanfodol yng Nghymru a thu hwnt i hwyluso'r gwaith o gloddio am adnoddau mwynol. Er nad yw'r dyfrffyrdd hyn bellach yn gwasanaethu'r diwydiant gwreiddiol y cawsant eu hadeiladu ar ei gyfer, sef cludo llwythau, rydym yn credu y gallant wneud cyfraniad hanfodol at fywyd Cymru o hyd. Tan at yn gymharol ddiweddar, roedd y dyfrffyrdd wedi mynd yn llefydd ynysig i raddau, oedd wedi troi cefn ar y byd a heb yr hyder i ddangos eu cyfraniad posibl at gymunedau Cymru. Fel yr elusen newydd sy'n gyfrifol am ofalu am y dyfrffyrdd, rydym am weld newid sylweddol yn y ffordd y mae pobl yn meddwl am ddyfrffyrdd Cymru. Rydym am ymestyn *Tu Hwnt i'r Llwybr Tynnu* gyda hyder newydd gan ddangos bod dyfrffyrdd Cymru yn gallu gwneud cyfraniad llawnach at gymdeithas a bod wrth galon y genedl unwaith eto.

Mae'r Prosbectws Deng Mlynedd hwn yn rhoi enghreifftiau o'r ffordd y credwn y gall dyfrffyrdd gyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Ledled y DU, Ewrop a thu hwnt, mae dadeni'n digwydd i ddyfrffyrdd mewnol. Er enghraifft, gwnaethant gyfraniad hollbwysig at y Parc Olympaidd, gyda delweddau teledu o gamlesi wedi'u hadnewyddu yn cael eu darlledu ledled y byd. Yng Nghymru, roedd dathliadau pen-blwydd 200 mlynedd Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn sbardun i uno cymunedau ac awdurdodau lleol ar hyd y gamlas, ac enillwyd Gwobr Adfywio Dyfrffyrdd Genedlaethol yn sgil hynny. Erbyn hyn, mae Camlas Llangollen yn Safle Treftadaeth y Byd sy'n cael ei gydnabod ym mhob cwr o'r byd. Ni fydd potensial gwirioneddol ein dyfrffyrdd na'u parhad hirdymor yn cael eu sicrhau nes bod cymunedau ledled Cymru yn credu eu bod

yn berthnasol i'w bywydau heddiw ac yfory. Bydd Glandŵr Cymru yn ceisio ymgysylltu a chydweithio'n llawn â Llywodraeth Cymru a phobl Cymru er mwyn gwireddu'n gweledigaeth gyffredin, sef dyfodol iach, llewyrchus a chynaliadwy.

Gyda'ch cymorth chi, rydym yn credu y bydd dyfrffyrdd Cymru yn llefydd bywiog a chynaliadwy ymhen deng mlynedd, gan wneud cyfraniad allweddol at sicrhau lles cymunedau ledled Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein prosbectws ar gyfer camlesi Cymru dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n fan cychwyn sgwrs rydym am ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru a phobl Cymru, ac rydym yn eich gwahodd i leisio'ch barn ar y weledigaeth hon, ymgysylltu â ni a helpu i lywio ein cyfeiriad yn y dyfodol gyda'n gilydd.



**Dr Mark Lang**

Cadeirydd Glandŵr Cymru



WATERWAY IMAGES


# Dyfrffyrdd yng Nghymru

Mae yna gysylltiad agos rhwng camlesi Cymru a'i threfi ôl-ddiwydiannol. Fodd bynnag, fel sy'n wir am rannau eraill o'r DU, mae gan y dyfrffyrdd sy'n eiddo i Glandŵr Cymru ac yn cael eu rheoli ganddo, ynghyd â'r rhai sydd ym meddiant ac yn cael eu rheoli gan eraill, y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at les Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir am yr ardaloedd hynny sydd wedi dioddef waethaf yn economaidd ac yn gymdeithasol yn sgil dad-ddiwydiannu, sy'n rhannu'r un hanes â'r dyfrffyrdd.

Mae defnydd helaeth eisoes yn cael ei wneud o seilwaith camlesi Cymru, ac mae 96% o'r gweithgarwch hwn yn digwydd ar y llwybrau tynnu, sy'n hygyrch i bawb. Mae llwybrau tynnu yn wastad, sy'n golygu eu bod ymhlith y gofodau agored mwyaf hygyrch mewn ardaloedd trefol a gwledig. Maent hefyd yn ddelfrydol ar gyfer hyrwyddo teithio egnïol ac archwilio, a helpu pobl i ymdopi â straen. Mae eu cymysgedd unigryw o dreftadaeth adeiledig a naturiol, rhywfaint ohoni o arwyddocâd rhyngwladol, yn apelio'n fawr at dwristiaid hefyd.



# Map Dyfrffyrdd



# Dyfrffyrdd yng Nghymru

## Rhan o Rwydwaith Ehangach


Mae dyfrffyrdd Cymru yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr, ac mae 13% o gychwyr ar eu gwyliau ac eraill sy'n teithio i weld Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ymwelwyr rhyngwladol. Er bod y rhwydwaith pan-Ewropeaidd o gamlesi yn unigryw i Ewrop, nid yw natur amlswyddogaethol y camlesi wedi'i chydnabod eto ar lefel polisi Ewropeaidd. Mae consortiwm newydd o awdurdodau dyfrffyrdd a dinasoedd, a sefydlwyd gan sawl sefydliad yn cynnwys Glandŵr Cymru, yn gweithio i sicrhau bod llunwyr polisi yn cydnabod manteision ehangach y rhwydwaith hwn.

Mae'r syniadau a'r cynigion yn y Prosbectws hwn yn seiliedig ar gyfoeth o brofiad sy'n deillio o werthuso effaith adfer 200 milltir o ddyfrffyrdd, cyn ac ar ôl y gwaith, a gwelliant a datblygiad sylweddol 2,000 o filltiroedd o ddyfrffyrdd dros y pymtheg mlynedd diwethaf. Mae ein syniadau wedi'u llywio gan enghreifftiau o waith rhagorol a gwblhawyd yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU, ac maent bellach yn cael eu datblygu gyda chymorth partneriaeth ymchwil strategol â Phrifysgol Caerdydd, er mwyn sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl.




# Dyfrffyrdd yng Nghymru

## Amseroedd Gyrru



Glandŵr Cymru

# Ein Dyfrffyrdd



Glandŵr Cymru

# Ein Gweledigaeth yng Nghymru

## Pwy ydym ni?

Glandŵr Cymru yw'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru. Ni yw perchnogion a'r sawl sy'n gofalu am Gamlesi Llangollen, Maldwyn, Mynwy ac Aberhonddu ac Abertawe. Mae hyn yn cynnwys perchenogaeth lawn o un o'r tri Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen, a rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.

Dyma'r tro cyntaf yn hanes camlesi Cymru i bob un o'r pedair camlas hon beidio â chael eu rheoli gan Lywodraeth y DU, ac mae Glandŵr Cymru yn credu y gall y trefniant newydd hwn gynnig cyfleoedd heb eu hail i Gymru fanteisio'n llawn ar ei dyfrffyrdd. Rydym yn awyddus i weithio gyda Chymru, nid yn unig i sicrhau bod potensial ein dyfrffyrdd ein hunain yn cael ei wireddu'n llawn, ond hefyd er mwyn gwireddu potensial holl ddyfrffyrdd ac ardaloedd dŵr Cymru.

Mae Glandŵr Cymru yn rhan o'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, sef perchnogion a'r sawl sy'n gofalu am dros 2,000 o filltiroedd o gamlesi ac afonydd, 73 cronfa ddŵr a'r casgliad mwyaf ond dau o adeiladau a strwythurau rhestredig yn y DU. Mae hefyd yn gweithredu ac yn berchennog ar ddociau ac ardaloedd dŵr Dociau Lerpwl ac ardal Dociau Llundain yn ogystal â Chanolfan Morglawdd a Dŵr Gwyn Tees. Mae Amgueddfa Genedlaethol Dyfrffyrdd yr Ymddiriedolaeth yn gartref i'r archif a'r casgliad dyfrffyrdd. Fel gwarcheidwad yr adnodd rhagorol hwn, mae'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith cynaliadwy sy'n esblygu ac yn hygyrch i bawb.



## Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd:

# Ein Blaenoriaethau Strategol

Ein blaenoriaeth yw ehangu apêl ein dyfrffyrdd heddiw a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mewn dogfen o'r enw *'Shaping our Future – Strategic Priorities – Keeping People, History and Nature Connected'* (Gorffennaf 2012), mae Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd wedi rhestru chwe blaenoriaeth strategol i geisio datgloi'r potensial hwn:

- Sicrhau bod ein camlesi a'n hafonydd yn agored, yn hygyrch ac yn ddiogel
- Ysbrydoli rhagor o bobl i fwynhau'r camlesi a'r afonydd a chefnogi'n gwaith
- Sicrhau diogelwch ariannol ar gyfer ein camlesi a'n hafonydd
- Gwneud popeth posibl i gyflawni ein hamcanion elusennol
- Lleihau'r effaith a gawn ar ad-noddau prin
- Sefydlu'r Ymddiriedolaeth fel gwarcheidwad ein camlesi a'n hafonydd sy'n ennyn parch ac ymddiriedaeth

> **"Rhwydwaith camlesi ac afonydd cynaliadwy sy'n esblygu, sy'n drysor cenedlaethol ac ar gael i bawb"**
>
> **Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Gorffennaf 2012**

Glandŵr Cymru

# Ein Cenhadaeth

Swyddogaeth Glandŵr Cymru yw cyflawni'r chwe amcan strategol hwn yng Nghymru er budd cymunedau Cymru, economi Cymru a'r dyfrffyrdd eu hunain. Rydym am ysbrydoli pobl Cymru i gysylltu â'n camlesi a'n hafonydd drwy annog pobl sydd â diddordeb yn ein gwaith i gyfrannu ato, estyn allan i'r rhai nad ydynt wedi darganfod y trysor cenedlaethol hwn hyd yma a sicrhau diogelwch hirdymor ein camlesi drwy sicrhau eu bod yn rhan fwy canolog o fywyd cenedlaethol Cymru.

**Rydym wedi datblygu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru nid yn unig fel y mae'n gweddu i dreftadaeth adeiledig, gymdeithasol a naturiol ein camlesi sydd o arwyddocâd rhyngwladol, ond hefyd i adleisio'r gwaith arweiniol sy'n digwydd yng Nghymru o ran creu dyfodol cynaliadwy:**

## "Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu – Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Dyfrffyrdd gyda'r Gorau yn y Byd i Gymru"

*Gofal dynamig o ddyfrffyrdd o'r radd flaenaf sy'n darparu manteision pendant i Gymru ac yn sicrhau lles ei phobl*

**Partneriaeth Dyfrffyrdd Cymru Gyfan, Mehefin 2013**

Glandŵr Cymru

# Ein Hamcanion Strategol

Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i gyfrannu'n llawn at les Cymru, byddwn yn ceisio cyflawni tri amcan strategol cyffredinol.

## Cymunedau – Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu

**Ehangu effaith dyfrffyrdd Cymru y tu hwnt i'r llwybr tynnu er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni mwy ar gyfer Cymru a'i phobl, yn awr ac yn y dyfodol drwy:**

- Cysylltu pobl, llefydd, cyfleusterau a gwasanaethau, a chyfleoedd ym meysydd iechyd, addysg, sgiliau, chwaraeon a hamdden, cyflogadwyedd ac ati
- Gwella sefyllfa economaidd, iechyd, perfformiad cymdeithasol a lles coridorau dŵr yn eu cyfanrwydd a'r cymunedau a wasanaethant
- Rheoli adnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy er budd cenedlaethau heddiw ac yfory
- Sicrhau bod dyfrffyrdd yn rhan o'r seilwaith trafnidiaeth, twristiaeth a gwyrdd cynaliadwy strategol a lleol
- Ysgogi a hwyluso'r gwaith o adfer a datblygu coridorau dyfrffyrdd a'u cyffiniau er budd cymunedau lleol, busnesau a'r Ymddiriedolaeth
- Codi dyheadau cymunedau'r glannau drwy ddefnyddio camlesi i ddatblygu sgiliau, addysg, gwirfoddoli a mabwysiadu



# Glandŵr Cymru
# Ein Hamcanion Strategol

## Twf – Gweithio gyda'n Gilydd

**Gweithio gyda'n gilydd i alluogi dyfrffyrdd i gyflawni mwy dros Gymru a'i phobl, yn awr ac yn y dyfodol:**

- Datgloi cyfraniad a gwerth posibl dyfrffyrdd Cymru at 'ddarpariaeth Llywodraeth gydgysylltiedig', y canlyniadau cenedlaethol strategol a Chymdeithas Ddinesig Cymru
- Cefnogi'r gwaith o adfer camlesi er mwyn ysgogi cydweithio, newid syniadau pobl a chynyddu hyder cymunedau
- Dod yn bartner strategol gwerthfawr drwy bresenoldeb lleol cryf ac ymrwymiad hirdymor i gefnogi cymunedau a chymdogaethau'r glannau yng Nghymru
- Dod yn bartner darpariaeth o ddewis sy'n rhoi gwerth am arian ac yn creu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mesuradwy ar gyfer pobl Cymru
- Dod yn warcheidwad dyfrffyrdd cynaliadwy ac iach sy'n ennyn cryn barch ac ymddiriedaeth, gan gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol, iaith a threftadaeth Cymru.



# Glandŵr Cymru

# Ein Hamcanion Strategol

## Cynaliadwyedd – Dyfrffyrdd ar gyfer Cymru

**Sicrhau bod Dyfrffyrdd Cymru yn datblygu'n lleoedd gyda'r gorau yn y byd sy'n hygyrch, sy'n cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cyflawni mwy dros Gymru a'i phobl yn awr ac yn y dyfodol:**


- Amgylcheddau ffyniannus, deniadol a hygyrch sy'n gwella iechyd a lles, yn creu twf ac adfywio economaidd, yn denu buddsoddiad ac yn cefnogi arloesedd
- Yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n llawn gan lunwyr polisi a phenderfynwyr fel thema polisi drawsbynciol sy'n cynnig gwelliannau sylweddol o ran lles a chadernid cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a'i phobl
- Yn cael eu gwerthfawrogi a'u mwynhau gan bobl sy'n byw yng Nghymru, yn gweithio yng Nghymru neu'n ymweld â Chymru, a chael eu gwarchod gan bobl leol a'u gwerthfawrogi fel rhan hanfodol o seilwaith, hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth y genedl
- Helpu i warchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru



# Cyflawni Mwy dros Gymru

# Synergedd Polisi Cyhoeddus

Mae dyfrffyrdd Cymru yn cyflawni canlyniadau mewn sawl maes polisi cyhoeddus eisoes. Gwyddom o brofiad mewn llefydd eraill eu bod yn gallu cyflawni llawer mwy yn ogystal â sicrhau canlyniadau mewn amrywiaeth o feysydd polisi yr un pryd. Dro ar ôl tro, dangoswyd eu bod yn gallu ysgogi cydweithio ac annog partneriaid i weithio gyda'i gilydd tuag at nod cyffredin, boed y partneriaid hynny'n gweithredu ar lefel gymunedol, rhanbarthol neu genedlaethol, neu yn wir ar lefel drawswladol.



# Cyflawni Mwy dros Gymru

# Rhoi Blaenoriaethau ar Waith

Gall dyfrffyrdd fod yn drawsffurfiol: gallant godi dyheadau, cynyddu hyder a gwella iechyd cymunedol; gallant helpu i ddenu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi; gallant gynyddu cadernid economaidd drwy dwristiaeth; a gallant warchod a chynyddu gwerthfawrogiad o'r dreftadaeth ddiwylliannol, adeiledig a naturiol. Mae'r adran *Ein Syniadau* yn yr astudiaethau achos sy'n dilyn yn dangos sut y gallai dyfrffyrdd gyflawni mwy dros Gymru a chyfrannu at y nodau polisi cenedlaethol cyfredol i wella lles Cymru.

Fel elusen, ni allwn wireddu ein gweledigaeth uchelgeisiol heb gymorth, a dim ond wrth weithio mewn partneriaeth â phobl a Llywodraeth Cymru y gallwn ddenu'r wybodaeth a'r buddsoddiad o ran amser ac arian sydd eu hangen i wireddu ein gweledigaeth a sicrhau bod y dyfrffyrdd yn dod yn rhan ganolog o fywyd Cymru.

Bydd ein syniadau'n dilyn y tair thema; cymunedau, twf a chynaliadwyedd. Disgrifir y rhain yn fanylach mewn tri chynllun gweithredu i'w cyhoeddi dros y pedwar mis nesaf.

**CYMUNEDAU**
**Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu**

**TWF**
**Gweithio Gyda'n Gilydd**

**CYNALIADWYE**
**Dyfrffyrdd ar gyfer Cymru**

**Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys tair astudiaeth achos drawsbynciol:**

- Camlas Mynwy ac Aberhonddu mewn cyd-destun Dinas-ranbarth;
- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte fel Porth i Ogledd-ddwyrain Cymru;
- Camlas Maldwyn fel enghraifft o ddatblygu cynaliadwy.

# Ein Syniadau: Un

## Camlas Mynwy ac Aberhonddu – Aberhonddu i Gasnewydd

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn cynnwys darn 35 milltir sy'n addas i gychod rhwng Aberhonddu a Phont-y-pŵl a darn 17 milltir arall sy'n cael ei adfer rhwng Pont-y-pŵl a Chasnewydd ac i Gwmcarn (Cangen Crymlyn). Mae'r gamlas yn cysylltu'r arfordir, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon ac yn llifo drwy ganol dau glwstwr Cymunedau yn Nhorfaen.

**Credwn y gall y gamlas fod yn sbardun ar gyfer cydweithio ac adfer economïau a chymunedau lleol yn Rhanbarth Dinas Caerdydd a thu hwnt.**

Cynhaliwyd dathliadau deucanmlwyddiant y Gamlas yn 2012, ac aeth 88 o bartneriaid ati i drefnu 65 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymgysylltu â chymunedau o un pen i'r gamlas i'r llall. Dangosodd sut y gallai'r chwe awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd tuag at nod cyffredin. Mae Cais Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Ardal Anheddiad De Torfaen wedi dangos sut y gallai lefel o gydweithredu, a'r Gamlas, gael eu defnyddio i ysgogi twf a buddsoddiad economaidd sylweddol a chysylltu cymunedau difreintiedig ag ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd.



# Ein Syniadau: Un

# Camlas Mynwy ac Aberhonddu – Aberhonddu i Gasnewydd

## Ein Syniad

Bydd adfer y darn na ellir ei fordwyo ac ail-leinio'r darnau bregus sy'n addas i gychod dros ddeng mlynedd yn darparu: stiwdio fyw i ddatblygu capasiti, sgiliau ac addysg mawr eu hangen y tu allan i'r ystafell ddosbarth; newid syniadau pobl am yr ardal; ychwanegu ysgogiad at fewnfuddsoddiad a'r busnesau a'r cymunedau ar hyd y gamlas; gwella a chysylltu cynefinoedd; annog pobl i gydweithio drwy gynlluniau gwirfoddoli a mabwysiadu cymunedol a chreu'r ymdeimlad o berchenogaeth sydd ei angen ar y Gamlas ar gyfer ei hiechyd hirdymor. Byddai parthau camlas yn cael eu creu yn y Crindau a Chwmbrân i ategu'r un sydd yn Aberhonddu eisoes. Byddai Goetre yn cael ei ddatblygu yn ganolbwynt ar gyfer y De a'r Cymoedd.

Mae partneriaeth wedi'i sefydlu rhwng pob un o'r awdurdodau lleol, y cyrff cyhoeddus a'r sefydliadau trydydd sector yng nghoridor y Gamlas. Mae cyllidwyr trydydd parti pwysig, gan gynnwys Ewrop a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, eisoes wedi cefnogi cynlluniau ar y Gamlas, gan gynnwys y gwaith gwerth £1.5 miliwn i adfer lociau Tŷ Coch. Mae gwirfoddolwyr a chontractwyr eisoes wedi dechrau gweithio ar ddarnau gwahanol o'r gamlas, ond mae angen rhaglen waith i ennyn hyder busnesau a llwybrau hyfforddi.



# Ein Syniadau: Un

# Camlas Mynwy ac Aberhonddu – Aberhonddu i Gasnewydd

## Allbynnau a Chanlyniadau

Mewnfuddsoddiad mewn tai a swyddi; gwelliannau iechyd wrth i bobl ddefnyddio'r llwybrau tynnu lleol i feicio a cherdded; cyfleoedd gwaith, hyfforddiant ac addysg yn ystod y gwaith; busnesau newydd yn cael eu sefydlu ar ôl y gwaith; band eang ar y llwybrau tynnu; trosglwyddo dŵr o'r Afon Wysg i Gasnewydd.

## Cost:

Byddai'n costio £20 miliwn i sicrhau cadernid y gamlas rhwng Pont-y-pŵl ac Aberhonddu, a gallai Glandŵr Cymru ysgwyddo 50% o'r gost dros ddeng mlynedd. Byddai'n costio £45 miliwn i adfer y Gamlas rhwng Pont-y-pŵl a Chasnewydd, gan gynnwys basnau yn y Crindau a Chwmbrân a'r gwaith o adfer 14 loc. Byddai ychwanegu Cangen Crymlyn yn costio £4 miliwn arall.

## Dangos bod y Strategaeth yn Cydweddu â Pholisi Cyhoeddus Cymru

Twf a Swyddi Cynaliadwy, Iechyd, Tai, Trechu Tlodi, Diwylliant a Threftadaeth Cymru, Dysgu Gydol Oes, cymunedau diogelach i bawb.

- Twf a Swyddi Cynaliadwy
- Addysg
- Iechyd
- Cartrefi
- Cymunedau Di-ogelach i Bawb
- Cydraddoldeb
- Trechu Tlodi
- Cymunedau Gwledig
- Diwylliant a Threftadaeth Cymru
- Dysgu Gydol Oes

| CYMUNEDAU<br>Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu | TWF<br>Gweithio Gyda'n Gilydd | CYNALIADWYE<br>Dyfrffyrdd ar gyfer Cymru |
|---|---|---|

# Ein Syniadau: Dau

# Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

Hon yw'r unig gamlas yn y DU sydd wedi'i dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd, hynny oherwydd nodweddion peirianneg gwych y gamlas. Mae Glandŵr Cymru wedi ymrwymo i gynnal y safle anhygoel hwn i safonau uchel, a sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth a Chymru yn cael y bydd mwyaf o'r safle.

Mae mwy o gychod yn defnyddio Camlas Llangollen nag unrhyw gamlas arall yn y DU. Mae 60,000 o nosweithiau gwely yn cael eu treulio ar gychod yng Nghymru, ac mae hyd at 8,500 o ymwelwyr yn ymweld â Threfor bob wythnos. Fodd bynnag, mae ymwelwyr yn gwario traean o'r hyn sy'n cael ei wario gan ymwelwyr â dyfrffyrdd Cymru a Lloegr ar gyfartaledd, a dim ond yn aros ar y safle am hanner yr amser â'r rhai sy'n ymweld â chyrchfannau lleol tebyg. Er bod llawer wedi'i gyflawni, er gwaethaf cyllid Menter Treftadaeth Treflun Cefn Mawr a chyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a wariwyd ar y safle, nid yw cymunedau lleol wedi cael budd o hyn hyd yma nac wedi ymateb i'r potensial. Mae clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Pentrefi Trefol Wrecsam o fewn 10 milltir i'r Gamlas.

Mae gan Langollen, Trefor a'r Waun ddalgylch o 6.2 miliwn o bobl o fewn 90 munud, ac maent o fewn cyrraedd hwylus Lerpwl a Gogledd-orllewin a Chanolbarth Lloegr. Mae'r safle yn denu llawer iawn o ymwelwyr o dramor eisoes, sef 13% o'r cyfanswm.

Mae partneriaeth o gyrff statudol ac awdurdodau lleol wedi'i sefydlu eisoes ledled y Safle Treftadaeth y Byd a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ar ôl ei sefydlu, ffurfiodd cymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd sefydliad "cyfeillion", Aqueducks, sy'n gwneud gwaith gwirfoddol, yn codi arian ac yn cynnal digwyddiadau. Mae tîm brwdfrydig o ddinasyddion o'r Waun wedi sefydlu Caffi Wylfa a llety busnes Glyn Wylfa.



# Ein Syniadau: Dau

# Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

## Ein syniad

Ein hamcan yw darparu cyfleusterau i ymwelwyr sy'n gweddu i Safle Treftadaeth y Byd yn y tair prif ganolfan, sef y Waun, Trefor a Llangollen. Bydd pob un yn cynnwys dehongliad amlieithog, siop a gwasanaeth arlwyo er mwyn hyrwyddo symudiad a gwariant ymwelwyr ar hyd y coridor cyfan a thu hwnt. Byddai'r brif ganolfan i ymwelwyr yn Nhrefor. Bydd y gwaith o ddarparu arwyddion ffyrdd ac arwyddion i gerddwyr, maes parcio a byrddau dehongli ar hyd y safle, ynghyd â symudiad ymwelwyr ar hyd y gamlas, y llwybr tynnu, y rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn galluogi'r safle un filltir ar ddeg i ymdopi â chynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr a chreu manteision economaidd sylweddol a chynaliadwy.

Byddai'r economi ymwelwyr yn helpu cymunedau lleol yn hytrach na bod yn anghyfleustra iddynt, gan helpu i adfer y ffyniant a gollwyd yn sgil colli swyddi gweithgynhyrchu. Byddai datblygu nwyddau o ansawdd yn cynyddu elw busnesau cyfredol hefyd ac yn darparu marchnad ar gyfer nwyddau, cynnyrch a gwasanaethau lleol.



# Ein Syniadau: Dau

# Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas

## Allbynnau a Chanlyniadau

Drwy hyrwyddo'r safle, byddwn yn ceisio cynyddu nifer yr ymwelwyr / cyfnodau aros / gwariant lleol; llwybrau cerdded, beicio a phadlo; busnesau a chynhyrchion twristiaeth newydd; sgiliau a chymwysterau; gwella dehongli, deilliannau dysgu a lefelau cyrhaeddiad addysg; a bodloni ymrwymiadau WHS UNESCO.

## Dangos bod y Strategaeth yn Cydweddu â Pholisi Cyhoeddus Cymru

Twf a Swyddi Cynaliadwy, Iechyd; Cymunedau Gwledig; yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Diwylliant a Threftadaeth Cymru, Addysg, Dysgu Gydol Oes.

Twf a Swyddi Cynaliadwy

Addysg

Iechyd

Cartrefi

Cymunedau Di-ogelach i Bawb

Cydraddoldeb

Trechu Tlodi

Cymunedau Gwledig

Diwylliant a Threftadaeth Cymru

Dysgu Gydol Oes

| CYMUNEDAU<br>Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu | TWF<br>Gweithio Gyda'n Gilydd | CYNALIADWYE<br>Dyfrffyrdd ar gyfer Cymru |
|---|---|---|

# Ein Syniadau - Tri

## Strategaeth Rheoli Cadwraeth Camlas Maldwyn

Mae Camlas Maldwyn yng Nghymru yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae ganddi'r boblogaeth fwyaf yn y byd o lyriaid arnofiol a 90% o boblogaeth y DU o Ddyfrllys Gwellt y Gamlas. Mae'r 23 milltir o ddŵr a'r cynefinoedd ar ei glannau yn gartref hefyd i bob math o drychfilod, amffibiaid, mamaliaid ac adar.

Yn 2005, llofnododd 14 o bartneriaid cyhoeddus a thrydydd sector Strategaeth Rheoli Cadwraeth arloesol sy'n sicrhau'r cydbwysedd rhwng anghenion yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac anghenion yr economi a chymunedau lleol ac ehangach. Y nod yw adfer y gamlas i'w defnyddio gan gychod fel model o ddatblygu cynaliadwy, gan gryfhau'r economi wledig, cefnogi cyfleusterau cymunedol fel siopau a thafarndai a chreu cyfleoedd ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol newydd. Wrth wneud hyn, bydd hefyd yn gwarchod ac yn cynyddu mynediad ffisegol a deallusol i amgylchedd a threftadaeth unigryw'r gamlas.



# Ein Syniadau - Tri

# Strategaeth Rheoli Cadwraeth Camlas Maldwyn

## Ein Syniad

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl ehangach y gamlas mewn cymunedau lleol, gan nodi bod ei chynaliadwyedd yn dibynnu ar ei pherthnasedd i bobl leol fel ffynhonnell swyddi lleol a sylfaen ar gyfer ansawdd bywyd.

Mae'r ddyfrffordd eisoes yn cynnal gwaith gwirfoddol, busnesau arloesol, fel *Canal Central* dros y ffin, a digwyddiadau arloesol fel y Treiathlon – beiciau, cychod ac esgidiau. Gallai Burgedin ddod yn ganolfan dŵr gwastad genedlaethol ar gyfer pob math o chwaraeon padlo. Mae partneriaeth gyda Canŵ Cymru, Croeso Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio Camlas Maldwyn fel sylfaen i ddatblygu padlo i deuluoedd ledled Cymru. Yn ogystal, mae'r llwybr tynnu yn dod yn hygyrch i bawb diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a Sustrans Cymru.

Byddai creu cronfeydd 'yn y sianel' ac 'all-lein' yn gwella'r profiad i ymwelwyr, yn atal newid i rywogaethau a bygythiadau allanol eraill ac yn cynnig cyfleoedd ehangach ar gyfer gwirfoddoli a chadwraeth. Byddai penodi "swyddog cefn gwlad" a phrentis a hyrwyddo gwirfoddoli cymunedol yn ein galluogi i weithio gyda thirfeddianwyr cyfagos i leihau dŵr ffo ac atal stoc rhag sathru ar wlyptiroedd ar y glannau. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth cam 1 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Sgiliau Treftadaeth ar gyfer y Dyfodol gwerth £800,000 a phrosiect camlas trawsffiniol pedair blynedd gwerth £5.75 miliwn, yn ogystal â chais i EU Life+ NATURE. Gallai'r holl brosiectau hyn gychwyn yn 2014/15. Bydd cyfnodau preswyl Celfyddydol a ddatblygir drwy ein partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru yn ategu'r prosiectau hyn.



# Ein Syniadau - Tri

# Strategaeth Rheoli Cadwraeth Camlas Maldwyn

## Allbynnau a Chanlyniadau:

Cynefinoedd newydd a chynefinoedd wedi'u gwarchod; llwybrau cerdded a phadlo a chynhyrchion twristiaeth newydd; cynyddu nifer yr ymwelwyr / cyfnodau aros / gwariant lleol; sgiliau a chanlyniadau dysgu eraill; newidiadau i lefelau cyrhaeddiad addysg; cyhoeddi astudiaethau achos ymarfer gorau.

## Dangos bod y Strategaeth yn Cydweddu â Pholisi Cyhoeddus Cymru

Twf a Swyddi Cynaliadwy, Iechyd; Cymunedau Gwledig; yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Diwylliant a Threftadaeth Cymru, Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes.

- Twf a Swyddi Cynaliadwy
- Addysg
- Iechyd
- Cartrefi
- Cymunedau Di-ogelach i Bawb
- Cydraddoldeb
- Trechu Tlodi
- Cymunedau Gwledig
- Diwylliant a Threftadaeth Cymru
- Dysgu Gydol Oes

CYMUNEDAU
Tu hwnt i'r Llwybr Tynnu

TWF
Gweithio Gyda'n Gilydd

CYNALIADWYE
Dyfrffyrdd ar gyfer Cymru

## Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyflawni Mwy

# Ein Prosbectws Deng Mlynedd

## Gweithio yn yr Ymddiriedolaeth

Rydym yn rheoli ein camlesi a'n hafonydd fel un rhwydwaith ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf a lle mae cyfleoedd i gydweithio i'w cael er mwyn manteisio i'r eithaf arnynt. Mae Partneriaethau'r Ymddiriedolaeth yn ein helpu i sicrhau ymatebolrwydd lleol ledled rhanbarthau Cymru a Lloegr, ac yng Nghymru fel cenedl. Nod y Bartneriaeth Cymru Gyfan, Glandŵr Cymru, yw dod â'r Ymddiriedolaeth yn agosach at Gymru, a Chymru'n agosach at yr Ymddiriedolaeth.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn cyhoeddi tri Phrosbectws arall a fydd yn amlinellu syniadau ar gyfer prosiectau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y ddwy bartneriaeth ddyfrffyrdd drawsffiniol sy'n canolbwyntio ar brosiectau (Partneriaeth De Cymru a Hafren a Phartneriaeth Gogledd Cymru a'r Gororau), a Phartneriaeth Amgueddfeydd ac Atyniadau'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Prosbectws hwn a rôl Glandŵr Cymru yn unigryw oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar Gymru gyfan ac ar raglenni a blaenoriaethau strategol, yn hytrach nag ar brosiectau dyfrffyrdd unigol.



# Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyflawni Mwy

# Ein Prosbectws Deng Mlynedd

## Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Mae Glandŵr Cymru yn awyddus i sefydlu perthynas agosach â Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraethu ehangach yng Nghymru. Mae'r Prosbectws ar gyfer y deng mlynedd nesaf yn dangos y meysydd allweddol lle rydym yn credu y gallwn helpu i wella lles Cymru. Mae ein gweledigaeth yn berthnasol i'r Rhaglen Lywodraethu bresennol ac i'r uchelgais fwy hirdymor a fynegwyd yng Nghymru. Wrth galon ein gweledigaeth y mae ymrwymiad i gynorthwyo gyda lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Gallwn gynnig cymorth i Lywodraeth Cymru mewn tri maes penodol:

**Asedau** – diogelu a gwella'r dreftadaeth adeiledig, naturiol a chymdeithasol

**Gweithgarwch** – cynyddu ac ehangu'r defnydd o'r asedau hyn a'u defnyddio fel sbardun

**Cyngor** – defnyddio'n profiad i helpu i ddatblygu dyfrffyrdd nad ydynt yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r ddelwedd gyffredin o ddyfrffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar gychod a theithio mewn cychod camlas, ac er bod y gweithgareddau hyn yn parhau i fod yn elfen allweddol o sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn llefydd ffyniannus ac arbennig, nid cynyddu nifer y teithiau mewn cychod camlas yw'r unig ganlyniad rydym am ei sicrhau. Mae 96% o'r defnydd o'n dyfrffyrdd yn digwydd ar y llwybrau tynnu yn hytrach nag ar y dŵr, a'r gweithgarwch ar y tir ac effaith y dyfrffyrdd ar yr ardaloedd cyfagos sy'n gallu gwneud y cyfraniad mwyaf at gynyddu ein cyfraniad at les. Nod y prosbectws hwn yw sicrhau bod y dyfrffyrdd yn rhan o'r gymuned bolisi ehangach hon.

## Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyflawni Mwy

# Ein Prosbectws Deng Mlynedd

## Gweithio gyda Phobl Cymru

Mae'r Prosbectws hwn a'r sgwrs rydym yn dymuno ei chynnal wedi'u bwriadu ar gyfer yr amrywiaeth eang o gymdeithasau, grwpiau a sefydliadau sy'n perthyn i gymdeithas ddinesig Cymru. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf rydym wedi sefydlu perthynas waith ragorol ag amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys Sustrans Cymru, gan gynyddu'r defnydd o'n llwybrau tynnu fel llwybrau diogel ar gyfer teithio egnïol; Y Cerddwyr, gan sefydlu'r ganolfan gerdded gyntaf yn y Goetre; Canŵ Cymru, gan ddatblygu padlo i deuluoedd; a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan ddatblygu rhaglen breswylio dair blynedd ar y dyfrffyrdd.

Ym mis Hydref, llofnodwyd Cytundeb Partneriaeth Strategol â Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu fframwaith ymchwil, monitro a gwerthuso ledled yr Ymddiriedolaeth ac, yng Nghymru, i ddarparu cyfleoedd lleoliad a secondiad yn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer myfyrwyr a staff y Brifysgol, a chyfres o seminarau i gyfrannu at y drafodaeth ar bolisi cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i ddatblygu mwy o bartneriaethau a chydweithio sy'n cynnig manteision i'r ddwy ochr lle gallwn wireddu ein dyheadau ar gyfer dyfrffyrdd Cymru a'u cyfraniad at fywyd Cymru, fel yr amlinellir yn y Prosbectws hwn.

Mae ein partneriaid, Partneriaethau'r Dyfrffyrdd sy'n canolbwyntio ar brosiectau, yn ymgysylltu'n llawn ar hyn o bryd â chymunedau lleol hefyd ar brosiectau penodol y gallant eu datblygu gyda'i gilydd.



# Ein Partneriaeth

**Dr Mark Lang, Cadeirydd**

Uwch Ymchwilydd yng Nghanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) a Chydymaith Anrhydeddus Prifysgol Caerdydd. Mae wedi gweithio fel cynghorydd gwleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn y gorffennol.

**Andrew Stumpf, Pennaeth Cymru**

Mae ganddo dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad ym maes dyfrffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac mae wedi hwyluso'r broses o weddnewid llefydd yn ddramatig, newid canfyddiadau a chyfoethogi cymunedau.

**Andrew Dakin**

Syrfëwr Siartredig, Cynllunydd Tref Siartredig a Dirprwy Brif Weithredwr CREW (Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru). Mae ganddo swydd addysgu hefyd yn Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd lle mae'n Uwch Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus. Mae'n aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Cymunedol Cynon Taf ac yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr *Urban Deisgn Group* yn Llundain.

**David Collins**

Roedd yn Brif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru am bymtheg mlynedd, gan wasanaethu ar sawl pwyllgor o Gorff Llywodraethu'r Byd (FIFA) a'r Corff Llywodraethu Ewropeaidd (UEFA).

**Donna Coyle**

Swyddog Ymchwil a Datblygu yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru â chyfrifoldeb am nodi a datblygu cyfleoedd busnes newydd a hyrwyddo partneriaethau a chydweithredu ar gyfer y rhwydwaith cynyddol o fentrau cymdeithasol yng Nghymru.

**Dr Ruth Hall**

Cyfarwyddwr anweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi'i phenodi'n ddiweddar yn llywodraethwr Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, o dan ofal Prifysgol Caerdydd. Mae Ruth wedi bod yn aelod o Fwrdd Cynghori Iechyd y Cyhoedd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ers 2005 ac yn athro ar ymweliad ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr.

**Christina Harrhy**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Pheiriannydd Sifil Siartredig, Aelod Cymrawd o Sefydliad y Peirianwyr Sifil a'r Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant, Aelod o'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig ac Aelod Cydymaith o'r Sefydliad Gwasanaethau i Gwsmeriaid.

**Dr Dawn Roberts**

Arweiniodd yr ymgyrch lwyddiannus i ennill statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ystod ei chyfnod yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae ganddi dros ugain mlynedd o brofiad ym maes twristiaeth a datblygu economaidd. Mae hi'n gweithio fel Cyfarwyddwr cwmni bellach.

**David Swallow**

Syrfëwr Siartredig â thros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad yn arwain ac yn rheoli amrywiaeth eang o brosiectau adfywio ffisegol a thrafodion masnachol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n arbenigo ym maes cynghori ar brosiectau partneriaeth mewn nifer o sectorau a disgyblaethau.

**Russell Todd**

Yn gweithio i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gan gydgysylltu'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedau yn Gyntaf sy'n helpu clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i drechu tlodi yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hefyd yn gweithio ar ei liwt ei hun ym maes datblygu cymunedol.